# Gorchymyn Datblygu Lleol

## Canol Tref Caerfyrddin

Chwefror 2022

carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Contents

1.0 Trosolwg....3
2.0 Cyfnod y GDLl....5
3.0 Defnydd a Ganiateir....1
4.0 Amodau....2
- Cyffredinol....2
- Dileu hawliau datblygu a ganiateir....3
- Cynigion Preswyl....3
- Unedau amlfeddiannaeth....3
- Gweithgarwch Trwyddedadwy....4
- Golwg y Stryd....4
- Amwynderau Cyhoeddus....4
- Rheoliadau Adeiladu....5
- Polisi Gosodiadau....5
- Cyfundrefnau Rheoleiddiol Eraill....5
- Strategaeth Ddraeniad....5
- Asesiad o Asedau....6

5.0 Nodiadau....7
6.0 Cydymffurfiaeth....9
7.0 Cyfraniadau cynllunio/Ardoll Seilwaith Cymunedol....10
8.0 Cynllun o Ardal y GDLl....11
9.0 Cynllun o Adeiladau Rhestredig a'r Ardal Gadwraeth....12
10.0 Mapiau Cyngor Datblygu ar gyfer Ardal y GDLl....13
Nodiadau....14
11.0 Cysylltiadau Allweddol....15

# 1.0 Trosolwg

1.1 Gall Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) ddefnyddio GDLl i roi caniatâd cynllunio hollgynhwysfawr ar gyfer mathau annadleuol, ond nid bach o reidrwydd, o "ddatblygu" / newidiadau defnydd o fewn ardal ofodol benodedig. Dylid cyfeirio hefyd at y Datganiad o Resymau sy'n mynd gyda'r GDLl hwn. Cyn cyflwyno cais, awgrymir fod unrhyw un sydd â diddordeb yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cynllunio i wyntyllu unrhyw faterion a gofynion posib ac i gadarnhau gofynion "dilysu". Cyfeirir hefyd at Ffurflen Gais y GDLl yn hyn o beth.

1.2 Amlinellir y Defnyddiau a Ganiateir yn Adran 3. Dangosir yr Ardal yn Adran 8. (at ddibenion yr adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol – fe'i darperir yn Atodiad).

1.3 Mae'r GDLl yn rhoi caniatâd cynllunio *amodol* ar gyfer mathau penodol o ddefnydd mewn unedau llawr gwaelod a lloriau uchaf. Rhagwelir y bydd y GDLl, wrth ganiatáu ystod eang o ddefnyddiau cydnaws, yn helpu i gynyddu lefelau meddiannaeth a nifer y siopwyr ynghanol y dref. Nid yw'r GDLl yn rhoi caniatâd ar gyfer gwaith allanol. Ni all cynigion gychwyn hyd nes y cyhoeddir Cymeradwyaeth Hysbysiad Cychwyn gan y Cyngor, waeth a gyhoeddwyd Tystysgrif Cydymffurfiaeth ai peidio. Nid yw'r GDLl yn berthnasol i Adeiladau Rhestredig. Bydd Tystysgrif Cydymffurfiaeth yn parhau am 3 blynedd a phe na bai'r cynnig yn cychwyn cyn diwedd y cyfnod hwnnw fe ddaw i ben.

1.4 Ar ôl 18 mis, caiff y GDLl ei ystyried yn llwyddiant os gwnaed dau neu ragor o’r newidiadau canlynol yn ardal y GDLl:

- Derbyniodd pum uned wag neu ragor ar y llawr gwaelod Dystysgrifau Cydymffurfiaeth (ffynhonnell: Blaen-gynllunio) ;
- Mae nifer blynyddol yr ymwelwyr wedi cynyddu yn ardal y GDLl (ffynhonnell: cyfrifwyr ymwelwyr Adran Adfywio’r Cyngor);
- Mae nifer yr unedau gwag ar y llawr gwaelod wedi lleihau yn ardal y GDLl (ffynhonnell: Blaen-gynllunio);
- Derbyniodd tair uned wag neu ragor ar y llawr uchaf Dystysgrifau Cydymffurfiaeth – mae hyn yn cynnwys fflatiau a defnydd preswyl – dosbarth defnydd C3 - (ffynhonnell: Blaen-gynllunio).

1.5 Cafodd y GDLl ei sgrinio o dan y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol, a bernir nad oes angen Datganiad Amgylcheddol. Casglodd Prawf o Effaith Arwyddocaol Debygol at ddibenion y Rheoliadau Cynefinoedd na chaiff y GDLl unrhyw effaith arwyddocaol (ar ei ben ei hun na thrwy gyfuniad) gyda Safle Ewropeaidd neu Safle Morol Alldraeth Ewropeaidd. Cafodd y GDLl ei sgrinio hefyd fel rhan o broses Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldebau.

1.6 Nid oes rhaid i’r GDLl gael ei Arfarniad Cynaliadwyedd– Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC-AAS) ei hun gan y bernir fod y GDLl yn manylu ar ddarpariaethau Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006 — 2021 (Mabwysiadwyd Rhagfyr 2014). Cynhaliwyd AC-AAS ar y CDLl yn barod, ynghyd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel y Cynllun.

## 2.0 Cyfnod y GDLl

2.1 Mae'r GDLl yn weithredol am gyfnod o dair blynedd wedi ei fabwysiadu. Fodd bynnag, caiff ei adolygu'n barhaus a gellir ei ymestyn neu ei gwtogi yng ngoleuni llwyddiant neu fethiant y GDLl.

2.2 Gall datblygiad sy'n cychwyn tra bod y GDLl ar waith gael ei orffen a/neu ei barhau ar ôl y cyfnod hwn o dair blynedd. Fodd bynnag, unwaith y daeth y GDLl i ben, ni chaniateir unrhyw newidiadau defnydd eraill o dan ei amodau heb ganiatâd cynllunio arferol. Tua diwedd y cyfnod 18 mis, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn asesu effaith y GDLl ac yn penderfynu (i) adnewyddu'r GDLl heb unrhyw ddiwygiadau, (ii) adnewyddu'r GDLl gydag amodau a thelerau newydd, neu (iii) ddiddymu'r GDLl.

# 3.0 Defnydd a Ganiateir

3.1 Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r dosbarthiadau defnydd perthnasol a ganiateir neu fel arall trwy'r GDLl ac o fewn ei ardal ofodol ddiffiniedig.

| | | |
|---|---|---|
| **Dosbarth Defnydd** | Llawr Gwaelod | Lloriau Eraill (Ac eithrio isloriau) |
| **A1** Siopau | Ie | Ie |
| **A2** Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol | Ie | Ie |
| **A3** Bwyd a Diod *Bwytai a Chaffis* | Ie | Ie |
| **A3** Bwyd a Diod *Sefydliadau yfed (ond nid clybiau nos)* | Ie | Ie |
| **A3** Bwyd a Diod *Siopau cludfwyd poeth* | Ie | Na |
| **B1** Busnes (swyddfeydd ac eithrio rhai o fewn A2) | Na | Ie |
| **C1** Gwestai, tai preswyl a thai llety | Na | Ie |
| **C3** Anheddau (preswyl yn cynnwys fflatiau) | Na | Ie |
| **D1** Sefydliadau amhreswyl (Sylwer – nid yw GDLl yn cynnwys Llysoedd Barn, Neuaddau Eglwys a Llyfrgelloedd) | Ie | Ie |
| **D2** Adeiladau ymgynnull a hamdden (Sylwer – nid yw GDLl ond yn caniatáu campfeydd a llecynnau ar gyfer chwaraeon neu hamdden dan do – ac eithrio chwaraeon modur, neu lle defnyddir arfau) | Ie | Ie |
| **Arall (sui generis)** Golchdai a busnesau tacsi yn unig | Ie | Ie |

Gellir cael mwy o wybodaeth ynghylch y Gorchymyn Dosbarth Derbyn trwy'r ddolen ganlynol:
https://www.planningportal.co.uk/wales_cy/info/3/common_projects/6/newid_defnydd

# 4.0 Amodau

## Cyffredinol

1. Ni fydd unrhyw newid defnydd a ganiateir gan y GDLl yn cychwyn hyd nes y cyflwynwyd cais am Dystysgrif Cydymffurfiaeth i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) a'u bod hwythau'n ei gymeradwyo'n ysgrifenedig. O dan unrhyw amgylchiadau, ac waeth a gyhoeddwyd Tystysgrif Cydymffurfiaeth ai peidio, ni all cynigion gychwyn hyd nes y cyhoeddir Cymeradwyaeth Hysbysiad Cychwyn gan y Cyngor.

**Rheswm: Sicrhau bod newidiadau defnydd arfaethedig yn cydymffurfio â thelerau'r Gorchymyn Datblygu Lleol.**

2. Gan gyfeirio at Nodyn Cyngor Technegol 15 Polisi Cynllunio Cymru (TAN15): Datblygu a Risg Llifogydd (neu unrhyw ddogfen sy'n ei ddiweddaru neu'n ei ddisodli yn ystod cyfnod y GDLl), ni chaniateir unrhyw defnydd i ddatblygiad agored iawn i niwed (fel y'i diffinnir yn TAN 15) mewn unrhyw uned ar y llawr gwaelod a leolir ym Mharth C2 y Map Cyngor Datblygu.

**Rheswm: Er mwyn bod yn gydnaws â darpariaethau polisi cynllunio cenedlaethol ar ffurf TAN 15.**

3. Cyfeirir at ddarpariaethau TAN 15, ac yn hynny o beth nid yw ardal y GDLl wedi'i lleoli ym Mharthau Llifogydd C1 na C2 fel y'u diffinnir ar y Mapiau Cyngor Datblygu. Cyfeirir hefyd at Nodyn 11 yn Adran 5 y GDLl hwn.

**Rheswm: Sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad a ganiateir gan y GDLl yn arwain at ganlyniadau llifogydd annerbyniol.**

## Dileu hawliau datblygu a ganiateir

4. Er gwaethaf darpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiadau Cyffredinol a Ganiateir) 1995 fel y'i diwygiwyd (neu unrhyw Orchymyn yn dirymu neu'n ailddeddfu'r Gorchymyn hwnnw), ni ellir gwneud unrhyw ddatblygu o fewn Atodlen 2, Rhan 40, Dosbarthiadau A, B, C, D, E, F, G, H neu I mewn unrhyw dŷ annedd (fel y'u diffinnir yn Offeryn Statudol Cymru 2009 2193(W.185)) a grëwyd o dan y GDLl heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

**Rheswm: Sicrhau y ceir math boddhaol o ddatblygiad.**

## Cynigion Preswyl

5. Ni all unrhyw gynllun addasu a weithredir o dan delerau'r GDLl, boed ar ei ben ei hun neu trwy gyfuniad â chynllun arall (waeth pwy yw'r perchnogion), greu crynodiad amhriodol o unedau un ystafell wely.

**Rheswm: Caniatáu'r cyfle i greu cymysgedd addas o feintiau a deiliadaeth unedau o fewn amgylchedd canol tref byw.**

## Unedau amlfeddiannaeth

6. Ni fydd unrhyw gynllun addasu a weithredir o dan delerau'r GDLl, boed ar ei ben ei hun neu trwy gyfuniad â chynllun arall (waeth pwy yw'r perchnogion), yn cael ei ystyried yn addas pan mae'n arwain at greu uned amlfeddiannaeth (h.y defnydd C4 ar gyfer HMO bychan neu sui generis ar gyfer HMO mawr).

**Rheswm: Caniatáu'r cyfle i greu cymysgedd addas o feintiau a deiliadaeth unedau o fewn amgylchedd canol tref byw.**

## Gweithgarwch Trwyddedadwy

7. Lle'n berthnasol, rhaid bodloni gofynion heb fod yn rhai cynllunio cyn cychwyn newid defnydd. Cyfeirir at Amod 1 y GDLl hwn a'r angen i gael Cymeradwyaeth Hysbysiad Cychwyn oddi wrth y Cyngor. Bydd angen i'r contractiwr/datblygwr ofalu y gwneir cais am gymeradwyaeth trwyddedu cyn cychwyn unrhyw waith ar y safle. Rhif cyswllt: 01267 234567, e-bost: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

**Rheswm: Sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau deddfwriaethol.**

## Golwg y Stryd

8. Ni ddylid cuddio ffenestri a blaen siopau sy'n bod yn barod ar y llawr gwaelod, naill ai'n fewnol nac yn allanol, trwy baent, gwyngalch, ffilm, llenni nac unrhyw ddeunydd afloyw arall.

**Rheswm: Cynnal cymeriad ac ymddangosiad masnachol Canol y Dref.**

## Amwynderau Cyhoeddus

9. Lle'n ofynnol a phan ofynnir amdano, dylid cyflwyno Asesiad Risg manwl (y mae'n rhaid cytuno ei gwmpas gyda'r tîm Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel (CChMD)) i'r CChMD a chael ei gymeradwyo ganddo cyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) gyhoeddi cymeradwyaeth hysbysiad cychwyn. Dylai'r Asesiad Risg asesu/rhagfynegi effaith debygol y datblygiad arfaethedig yn ei grynswth ar eiddo masnachol a phreswyl sy'n bod yn barod yn yr ardal a/neu ragfynegi effaith debygol eiddo masnachol a phreswyl sy'n bod yn barod ar y datblygiad arfaethedig. Lle y bo angen bydd yr asesiad risg yn nodi'r camau lliniaru sydd eu hangen ar ffurf Cynllun Rheoli. Caiff y newid defnydd ei gyflawni wedi hynny yn unol ag unrhyw Gynllun Rheoli a gymeradwywyd.

**Rheswm: Er mwyn diogelu amwynder pobl sy'n defnyddio'r ardal gyfagos.**

## Rheoliadau Adeiladu

10. Rhaid bodloni gofynion heb fod yn rhai cynllunio cyn cychwyn newid defnydd. Bydd angen i'r contractiwr/datblygwr ofalu y ceir cymeradwyaeth Rheoli Adeiladu yr Awdurdod Lleol (RhAALl) cyn cychwyn unrhyw waith ar y safle. Rhif cyswllt: 01267 246044 e-bost: rheolaeth.adeiladu@sirgar.gov.uk. Cyfeirir at Amod 1 y GDLl hwn a'r angen i gael Cymeradwyaeth Hysbysiad Cychwyn gan y Cyngor.

**Rheswm: Sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau deddfwriaethol.**

## Polisi Gosodiadau

11. Lle'n briodol, bydd angen i ddefnyddiau preswyl a ganiateir gan y GDLl gydymffurfio â gofynion ynghylch unrhyw Bolisi Gosodiadau sydd gan y Cyngor Sir. Dylid gofyn am gyngor gan yr adran berthnasol.

**Rheswm: Caniatáu'r cyfle i greu cymysgedd addas o feintiau a deiliadaeth unedau o fewn amgylchedd canol tref byw.**

## Cyfundrefnau Rheoleiddiol Eraill

12. Rhaid bodloni gofynion heb fod yn rhai cynllunio cyn cychwyn newid defnydd. Cyfeirir at Amod 1 y GDLl hwn a'r angen i gael Cymeradwyaeth Hysbysiad Cychwyn gan y Cyngor.

**Rheswm: Diogelu amwynder pobl mewn eiddo cyfagos.**

## Strategaeth Ddraeniad

13 Ni fydd unrhyw newid defnydd yn cychwyn pan fydd yn arwain at orlwytho hydrolig yn y system garthffosiaeth gyhoeddus. Lle'n ofynnol a phan ofynnir amdano, dylid cyflwyno strategaeth ddraeniad i Dŵr Cymru a chael ei chymeradwyo ganddynt.

**Rheswm: Galluogi gweithredu Strategaeth Ddraeniad y GDLl.**

## Asesiad o Asedau

14. Ni fydd unrhyw newid defnydd yn cychwyn pan fydd yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd unrhyw garthffos gyhoeddus a/neu asedau prif gyflenwad dŵr o fewn a/neu gyfagos â'r safle. Lle'n ofynnol a phan ofynnir amdano, dylid cyflwyno asesiad sy'n egluro unrhyw effaith a lle y bo angen unrhyw gamau lliniaru i Dŵr Cymru a chael ei chymeradwyo ganddynt.

**Rheswm: Cefnogi gweithredu Strategaeth Ddraeniad y GDLl.**

## 5.0 Nodiadau

1. Mae’r GDLl yn weithredol am gyfnod o dair blynedd wedi ei fabwysiadu. Fodd bynnag, caiff ei adolygu’n barhaus a gellir ei ymestyn neu ei gwtogi yng ngoleuni llwyddiant neu fethiant y GDLl.

2 Gall datblygiad sy’n cychwyn tra bod y GDLl ar waith gael ei orffen a/neu ei barhau ar ôl y cyfnod hwn o dair blynedd. Fodd bynnag, unwaith y daeth y GDLl i ben, ni chaniateir unrhyw newidiadau defnydd eraill o dan ei amodau heb ganiatâd cynllunio arferol. Tua diwedd y cyfnod 18 mis, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn asesu effaith y GDLl ac yn penderfynu (i) adnewyddu’r GDLl heb unrhyw ddiwygiadau, (ii) adnewyddu’r GDLl gydag amodau a thelerau newydd, neu (iii) ddiddymu’r GDLl.

3. Nid yw’r GDLl yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw “ddatblygiad” (fel y’i diffinnir yn Rhan III, Adran 55 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) ac eithrio’r newidiadau defnydd a ddisgrifir yn adran 3.

4. Er mwyn lleddfu effaith datblygiad ar wasanaethau a chyfleusterau lleol, efallai yr hawlir Ardoll Seilwaith Cymunedol a/neu gyfraniadau gwirfoddol yn unol â gweithdrefnau presennol y Cyngor.

5. Nid yw’r GDLl yn dileu unrhyw angen am ganiatâd hysbysebion neu adeiladau rhestredig.

6. Nid yw’r GDLl yn dileu unrhyw angen am ganiatâd o dan reoliadau heb fod yn rhai cynllunio, megis y rhai yn ymwneud â thrwyddedu, iechyd yr amgylchedd a rheoli adeiladu.

7. Nid yw’r GDLl ond yn berthnasol i’r ardal a ddangosir ar gynllun y GDLl (trowch at adran 8 a atodir i’r adroddiad hwn i’r Bwrdd Gweithredol).

8. Ni fydd gan feddianwyr anheddau a grëwyd o dan delerau’r GDLl, hawl i gael hawlenni parcio gan y Cyngor.

9. Cafodd y GDLl ei sgrinio o dan y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol, a bernir nad oes angen Datganiad Amgylcheddol. (caiff hwn ei gadarnhau ar ôl y Bwrdd Gweithredol).

10. Gellir gweld Map Cyngor Datblygu TAN 15 ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyfeirir hefyd at y Cynllun a amlinellir yn Adran 10 (a atodir i adroddiad y Bwrdd Gweithredol)

11. Gellir atodi nodyn cyngor ynghylch rheoli Risg Llifogydd i Dystysgrifau Cydymffurfiaeth.

12. Gellir atodi nodyn cyngor ynghylch Ecoleg i Dystysgrifau Cydymffurfiaeth.

13. Yn seiliedig ar nifer yr unedau o fewn safle’r Prosiect yn barod, mae’n annhebyg y gellid cwblhau’n ffisegol fwy na 180 o addasiadau preswyl. Os cyrhaeddir ffigwr o 100 o Gymeradwyaethau Hysbysiad Cychwyn ar gyfer unedau preswyl o fewn y cyfnod o 3 blynedd, cyflwynir moratoriwm ar y GDLl a chaiff ei adolygu ac adroddir y canlyniadau i’r Cyngor llawn. Bydd adolygiad o’r fath yn adlewyrchu mewnbwn y rhanddeiliaid hysbysu (gan gynnwys CNC a DCWW).

14. Gellir atodi nodyn cyngor ynghylch yr Amgylchedd Hanesyddol Adeiledig i Dystysgrifau Cydymffurfiaeth.

## 6.0 Cydymffurfiaeth

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn monitro newidiadau defnydd ynghanol y dref a, lle’n briodol, gall cymryd camau gorfodi yn erbyn unrhyw ddatblygu anawdurdodedig, gan gynnwys unrhyw ddefnyddiau sy’n torri’r amodau.

## 7.0 Cyfraniadau cynllunio/Ardoll Seilwaith Cymunedol

Er mwyn lliniaru effaith datblygiad ar wasanaethau a chyfleusterau lleol, efallai yr hawlir Ardoll Seilwaith Cymunedol a/neu gyfraniadau gwirfoddol yn unol â gweithdrefnau presennol y Cyngor.

## 8.0 Cynllun o Ardal y GDLl

# Gorchymyn Datblygu Lleol Canol Tref Caerfyrddin

Compiled by  on 3 March 2022


Scale 1:2500

Template: C:\xgapps\template\ccc_a3l.wor


Cyngor Sir Caerfyrddin
Is-Adran Lle a Chynaliadwyedd
Adran Yr Amgylchedd
3 Heol Spilman
Caerfyddrin
SA31 1LE

Carmarthenshire County Council
Place and Sustainability Division
Environment Department
3 Spilman Street
Carmarthen
SA31 1LE

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377   © Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

Additional information: ¬ Carmarthenshire County Council

## 9.0 Cynllun o Adeiladau Rhestredig a'r Ardal Gadwraeth

# Adeiladau Rhestredig a'r Ardaloedd Gadwraeth

Compiled by on 3 March 2022


Scale 1:2500

Template: C:\xgapps\template\ccc_a3l.wor


Cyngor Sir Caerfyrddin
Is-Adran Lle a Chynaliadwyedd
Adran Yr Amgylchedd
3 Heol Spilman
Caerfyddrin
SA31 1LE

Carmarthenshire County Council
Place and Sustainability Division
Environment Department
3 Spilman Street
Carmarthen
SA31 1LE

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377 © Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

Additional information: ¬ Carmarthenshire County Council

# 10.0 Mapiau Cyngor Datblygu ar gyfer Ardal y GDLl

# Map Cyngor Datblygu Perygl Llifogydd

Compiled by  on 3 March 2022


Scale 1:2500

Template: C:\xgapps\template\ccc_a3l.wor


Cyngor Sir Caerfyrddin
Is-Adran Lle a Chynaliadwyedd
Adran Yr Amgylchedd
3 Heol Spilman
Caerfyddrin
SA31 1LE

Carmarthenshire County Council
Place and Sustainability Division
Environment Department
3 Spilman Street
Carmarthen
SA31 1LE

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377 © Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377


Additional information: ¬ Carmarthenshire County Council

## Nodiadau

i) Mae’r Cynllun uchod yn seiliedig ar Fapiau Cyngor Datblygu Tachwedd 2021.

ii) Caiff y Mapiau Cyngor Datblygu eu hadolygu’n achlysurol a gallant felly newid yn ystod cyfnod 18 mis y GDLl. Dylid cyfeirio at wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyn o beth.

## 11.0 Cysylltiadau Allweddol

1 Rheoli Datblygu (ceisiadau cynllunio) – Swyddfa Llandeilo – cynllunio@sirgar.gov.uk

2 Blaen-gynllunio – 01267 228818 blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

3 Diogelu'r Cyhoedd 01267 234567 diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

4 Rheoli Adeiladu 01267 246044 rheolaeth.adeiladu@sirgar.gov.uk

.